# Cynllun Datblygu Ysgol

# 2025-26

**Pennaeth Ysgol Pen Barras: Dyfan Phillips**

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Huw Hilditch-Roberts**

**Swyddog Cefnogi Ysgolion Sir Ddinbych: Mr Hywel Roberts**

**Blwyddyn Academaidd 2025-26**


# Pedwar Diben y Cwricwlwm

## Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn:

| ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd: | gyfranwyr mentrus, creadigol sydd: | ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd: | unigolion iach, hyderus sydd: |
|---|---|---|---|
| • yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau<br>• yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau<br>• yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau<br>• yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg<br>• yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt<br>• yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau<br>• yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol<br>• yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi<br>• yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol<br><br>**ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.** | • yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion<br>• yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau<br>• yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt<br>• yn mentro'n bwyllog<br>• yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol<br>• yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau<br>• yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa<br><br>**ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.** | • yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn<br>• yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>• yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd<br>• yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu<br>• yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol<br>• yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>• yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned<br><br>**ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.** | • â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol<br>• yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi<br>• yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd<br>• yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach<br>• yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol<br>• yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg<br>• â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau<br>• yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd<br>• yn wynebu heriau ac yn eu trechu<br>• â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant<br><br>**ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.** |

<table>
<tr><th colspan="6">Meysydd Dysgu a Phrofiad</th></tr>
<tr><td>Celfyddydau Mynegiannol</td><td>Iechyd a Lles</td><td>Dyniaethau</td><td>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</td><td>Mathemateg a Rhifedd</td><td>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</td></tr>
<tr><th colspan="3">Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd</th><th colspan="3">Sgiliau Ehangach</th></tr>
<tr><td>Llythrennedd</td><td>Rhifedd</td><td>Cymhwysedd digidol</td><td>Y dimensiwn Cymreig</td><td colspan="2">Y persbectif rhyngwladol</td></tr>
</table>

# Llwybr Datblygu Safonau




Blwyddyn Academaidd 2025-26

# Ein Gweledigaeth

**Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg**

**Parchwn yr ysgol, y gymuned a'r byd**

**Mwynhawn brysurdeb a phrofiadau di-ri**

**Rhown lais a chlust i bawb**

**Byddwn yn gwrtais a charedig ac yn ffrind da**

**Cadwn y corff a'r meddwl yn iach**

**Heriwn ein hunain i wneud ein gorau glas**

# Staffio 2025-26

| Dosbarth | Nifer o blant | Athro dosbarth |
|---|---|---|
| **Meithrin** | 36 | Mared Owen |
| **Derbyn** | 28 | Elinor Rogers |
| **Saffrwn** | 25 | Sioned Roberts |
| **Cennin Pedr** | 25 | Alwen Vaughan/ Elin Griffiths |
| **Clychau'r Gog** | 26 | Elin Owen |
| **Onnen** | 26 | Lois Morris / Annwen H |
| **Celyn** | 25 | Ffion Hughes / Annwen H |
| **Derwen** | 26 | Owen Hughes |
| **Menlli** | 25 | Elin Parry / Nia R |
| **Berwyn** | 25 | Elen Tudor |
| **Hiraethog** | 25 | Helen Williams / Nia R |

Cyfanswm Ysgol- gan gynnwys Meithrin-292

Cyfanswm llawn amser- 256

Blwyddyn academaidd 2025-26

# Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol Pen Barras 2024-25

## Blaenoriaeth 1

**SAFONAU / STANDARDS**

**Gwerthuso a chryfhau gweithdrefnau a systemau ysgol gyfan er mwyn datblygu hyder a sgiliau plant yn y Gymraeg.**

To evaluate and strengthen whole school procedures and systems in relation to developing pupil confidence and skills in the Welsh Language.



## Blaenoriaeth 2

**SAFONAU / STANDARDS**

**Codi safonau rhifedd drwy'r ysgol- parhau i ddatblygu hyder disgyblion gyda mathemateg pen ac elfennau o ymresymu a datrys problemau.**

To raise whole school standards in Mathematics- and to focus on further developing pupil confidence in mental maths strategies which include reasoning and problem solving.



## Blaenoriaeth 3

**LLES / WELL BEING**

**Adolygu a mireinio systemau a gweithdrefnau rheoli ymddygiad yr holl ysgol- sicrhau cysondeb ar draws Unedau a staff.**

To review and revise procedures and processes in managing pupil well-being, including behaviour across the school ensuring continuity across different Units and age groups.



## Blaenoriaeth 4

**ARWEINYDDIAETH / LEADERSHIP**

**Adolygiad systemau, prosesau a gweithdrefnau Ysgol gyfan gan gynnwys elfennau cwricwlwm (dylunio a gweithredu) ac hunan-arfarnu, diogelwch safle a diogelu, brandio a marchnata.**

A review of whole school system, processes and procedures- focussing on curriculum design and implementation, school self-evaluation procedures, school site safety management, safeguarding and marketing and branding.



Blwyddyn academaidd 2025-26

# Arfarniad Blaenoriaethau CDY 2024-25

**Barn ar y flaenoriaethau**- Cynnydd rhagorol (gwyrdd) Cynnydd da (oren) Cynnydd boddhaol (glas) Cynnydd anfoddhaol (coch)

| Blaenoriaeth | Sylwadau / Crynodeb cynnydd | Meysydd i ddatblygu | Barn ar y flaenoriaeth |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1**<br><br>**Gwerthuso a chryfhau gweithdrefnau a systemau ysgol er mwyn datblygu hyder a sgiliau plant yn y Gymraeg** | • Ail wobrwyo Gwobr Aur Siarter Iaith- Mehefin 2025. Criw Cymraeg wedi cyfrannu at weithgarwch gwerthfawr iawn yn ystod y flwyddyn.<br>• Dysgwyr yn cael eu trochi yn dda gyda chyfoedion. Disgyblion Uned dan 9 o gartrefi di-Gymraeg erbyn hyn yn gwbl hyderus yn y Gymraeg a naturiol.<br>• Cymraeg yw iaith y buarth - gyda lleiafrif o unigolion yn siarad Saesneg.<br>• Sglein arlein wedi ei gyflwyno ar draws yr ysgol. Adnodd gwerthfawr iawn ac effaith yn dechrau cael ei weld ar sgiliau llafar y plant.<br>• Yr Ysgol yn hybu'r Gymraeg yn amlwg o fewn y gymuned- e.e. ymweliadau cyson i'r dref – siopau, busnesau lleol, ymwelwyr yn dod i'r ysgol. Y plant i gyd yn cael profiadau Cymraeg a Chymreig yn yr ysgol ac yn yr ardal leol.<br>• Ffocws thema ar faes dysgu a phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' ym mhob uned wedi llwyddo – parhau gyda hyn. | • Parhau i wreiddio cynllun Sglein arlein ar draws yr ysgol i dargedu sgiliau llafar.<br>• Sgiliau llafar y plant yn y Cyfnod Sylfaen.<br>• Cywirdeb a gloywi iaith yn CA2.<br>• Darllen CA2 wedi amlygu eleni. | Cynnydd da (oren) |
| **Blaenoriaeth 2**<br><br>**Codi safonau rhifedd drwy'r ysgol- parhau i ddatblygu hyder disgyblion gyda mathemateg pen ac elfennau o ymresymu a datrys problemau** | • Treialwyd system amgen o gynllunio Mathemateg- hyn er mwyn defnyddio arbenigedd yr athrawon yn y maes.<br>• Roedd nifer o elfennau cadarnharnol- ymgysylltiad plant efo staff gwahanol, mwy o gyfleodd i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn arbennig yr ardal tu allan.<br>• Fodd bynnag, nid oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael digon o amser i adnabod y plant. Petai absneoldeb staff, roedd hyn wedyn yn drysu amserlen yr holl Uned.<br>• Yn gyffredinol teimlwyd bod arferion da ar waith, ond bydd angen mwy o amser i ddatblygu a chysoni i weld effaith- ac felly parhau gyda'r flaenoriaeth yn 2025-26 | • Mynd nol i'r hen drefn o bob athro yn dysgu rhifedd I'w ddosbarth ei hun.<br>• Angen ystyried staffio Uned dan 9.<br>• Datblygu gweithgor rhifedd clwstwr – ymestyn cyfleoedd i gydweithio efo ysgolion clwstwr a'r uwchradd.<br>• Ymchwilio i strategaethau arloesol y tu hwnt i'n gweithgarwch arferol. | Cynnydd boddhaol (glas) |

# Arfarniad Blaenoriaethau CDY 2024-25

**Barn ar y flaenoriaethau**- Cynnydd rhagorol (gwyrdd) Cynnydd da (melyn) Cynnydd boddhaol (glas) Cynnydd anfoddhaol (coch)

| Blaenoriaeth | Llwyddiannau | Meysydd i ddatblygu | Barn ar y flaenoriaeth |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 3**<br><br>**Adolygu a mirienio systemau a gweithdrefnau rheoli ymddygiad yr holl ysgol- sicrhau cysondeb ar draws Unedau a staff** | • Cyflwynwyd system / gweithdrefn newydd o dracio ymddygiad disgyblion gan gynnwys defnydd effeithiol o gardiau melyn / coch. Rhain wedi bod yn effeithiol iawn ac ymateb da gan blant. System wobrwyo wythnosol wedi llwyddo,e.e. cinio'r Pennaeth, tystysgrifau ysgol gyfan. Adborth cadarnhaol iawn gan rieni drwy'r dudalen Facebook.<br><br>• Mwy o gydweithio efo'r Swyddog Cyswllt teulu eleni. Mwy o gyfleoedd i rieni fynychu sesiynau cymorth a hyn yn sicrhau cyswllt da efo'r ysgol. | • Parhau i dargedu presenoldeb a chodi canran ysgol gyfan – 93% (24-25). Targed ar gyfer 25-26 – 95%.<br><br>• Angen adolygu systemau canmol yn gysylltiedig a Phresenoldeb disgyblion.<br><br>• Strwythur UD5 i ymateb i anghenion ADY plant fydd yn symud i'r dosbarth Derbyn. | (Cynnydd da – melyn) |
| **Blaenoriaeth 4**<br><br>**Fel Pennaeth newydd, adolygu prosesau a gweithdrefnau Ysgol gyfan.** | • Corff llywodraethol cryf a chefnogol, uwch dim rheoli cadarn- timau o staff arbennig ac Unedau yn cydweithio'n effeithiol.<br><br>• Dysgu ac Addysgu- Da iawn- plant yn derbyn profiadau gwych- themau sy'n ysgogi cyfeloedd uchelgeisiol a chyfredol- sy'n ysgogi chwilfrydedd a brwdfrydedd y plant.<br><br>• Unedau yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda- llu o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion- yn cyfoethogi'r addysgu. Angen ystyried os oes ormod o brofiadau ar adegau ac efallai cyfle i gwtogi a chanolbwytnio ar sgiliau sylfaenol darllen, ysgrifennu a rhifedd.<br><br>• Ymddygiad yn dda- addaswyd polisi Ymddygiad- hyn wedi bod yn llwyddiannus- sicrhau cysondeb ar draws Unedau.<br><br>• Cymraeg- (y pennaeth, o fod mewn Ysgol cyfrwng Cymraeg ar hyd y glannau am 20 mlynedd)- gweld defnydd naturiol gan rhan fwyaf o'r plant o'r iaith Gymraeg – hyn yn nodweddiadol ar y buarth. Amser cinio- awyrgylch Gymreig yn y ffreutur-cerddoriaeth Cymraeg.<br><br>• Rol o fewn y gym | • Asesu- sefydlu system tracio Ysgol gyfan.<br><br>• Diweddaru a datblygu adnoddau TGCH trwy'r Ysgol- yn benodol byrddau gwyn rhyngweithiol drwy'r ysgol (ED TECH grant)- Uwch sgilio straff.<br><br>• Hunanarfarnu – arferion da ar waith ond byddwn yn datblygu'r strwythur ymhellach flwyddyn nesaf.<br><br>• Mireinio Systemau Hunan Arfarnu Ysgol gyfan.<br><br>• Adnewyddu strwythurau staffio Unedau.<br><br>• Parhau i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg | (Cynnydd da – melyn) |

# Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol Pen Barras 2025-26

## Blaenoriaeth 1

**SAFONAU / STANDARDS**

Llythrennedd:

**Codi safonau iaith lafar a darllen Cymraeg.**

Literacy:

**Improving pupils' spoken Welsh and reading skills..**

## Blaenoriaeth 2

**LLES / WELL BEING**

**Cefnogi lles disgyblion ac ADY, gwella presenoldeb, a datblygu dycnwch.**

**Supporting pupil wellbeing and ALN, improving attendance, and building resilience.**

## Blaenoriaeth 3

**SAFONAU / STANDARDS**

Rhifedd:

**Gwella sgiliau Mathemateg Pen, Datrys Problemau ac Ymrhesymu.**

Numeracy:

**Enhancing mental maths, problem-solving and reasoning skills.**

## Blaenoriaeth 4

**ARWEINYDDIAETH / LEADERSHIP**

**Adolygu cyfrifoldebau staff, ymateb i heriau cyllidebol, a chefnogi lles staff.**

**Reviewing staff roles and responsibilities responding to school budget challenges and pressures, and supporting staff wellbeing.**

# Blaenoriaethau'r Ysgol 2025-26

## Blaenoriaeth 1

| **Blaenoriaeth 1:**<br>**Llythrennedd**<br>• **Codi safonau llafar Cymraeg disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen**<br>• **Datblygu sgiliau Darllen Cymraeg disgyblion yn yr Adran Iau** | | | | **Crynodeb a thystiolaeth pam dewis hyn fel blaenoriaeth:**<br>• Sgyrsiau proffesiynol staff a chanlyniadau hunanarfarnu mewnol.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer uchel o blant ddim yn darllen adref yn gyson.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer o ddisgyblion iau yr ysgol yn siarad Saesneg ar y buarth.<br>• Adborth holiadur staff.<br>• Dadansoddiad Asesiadau / Profion cenedlaethol Darllen 2024/25.<br>• Ffocws cenedlaethol ar ddatblygu sgiliau darllen. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |

| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|---|
| Codi **Safonau Llafar yn y Cyfnod Sylfaen**<br>(Gweler manyleb Unedau ar dudalen 12) | Arweinwyr UD5 / UD7<br>Holl staff | Cefnogaeth adnoddau Tim Cefnogi'r Gymraeg Sir Ddinbych | Amser / Cyafrfodydd Cynlluniau Unedau | Yn weithredol o Fedi ymlaen |
| Mabwysiadu/addasu Cynllun Llafaredd Sir Ddinbych.<br>Pob athro i gynnwys datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr yn eu cynlluniau.<br>Sicrhau bod y staff yn modelu iaith raenus a chywir. | Staff Unedau | Cydweithio efo Tim Cefnogir Gymraeg, Sir Ddinbych | Amser / cyfarfodydd / CPA | Pob tymor |
| Sicrhau bod cyflwyno patrymau iaith a datblygu sgiliau llafaredd yn digwydd yn ddyddiol ac yn cael ei amserlennu.<br>Sicrhau bod adnoddau Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio yn y gwersi a'r gweithgareddau.<br>Sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer ac atgyfnerthu eu dysgu blaenorol.<br>Cynllunio digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau llafaredd, chwarae rôl a chanu. | Staff Unedau | Pori trwy Stori, Tric a Chlic, Pie Cortbett, Iaith ar Gan, Sglein ar Lein | Amser / Cyrsiau CYDAG<br>Cost cyflenwol. | Pob tymor |

# Blaenoriaethau'r Ysgol 2025-26

## Blaenoriaeth 1

| **Blaenoriaeth 1:**<br>**Llythrennedd**<br>• **Codi safonau llafar Cymraeg disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen**<br>• **Datblygu sgiliau Darllen Cymraeg disgyblion yn yr Adran Iau** | **Crynodeb a thystiolaeth pam dewis hyn fel blaenoriaeth:**<br>• Sgyrsiau proffesiynol staff a chanlyniadau hunanarfarnu mewnol.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer uchel o blant ddim yn darllen adref yn gyson.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer o ddisgyblion iau yr ysgol yn siarad Saesneg ar y buarth.<br>• Adborth holiadur staff.<br>• Dadansoddiad Asesiadau / Profion cenedlaethol Darllen 2024/25.<br>• Ffocws cenedlaethol ar ddatblygu sgiliau darllen. |
|---|---|

| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Sgiliau Darllen yn yr Adran Iau** | | | | |
| Cynnal sgyrsiau proffesiynol staff am adnoddau / awdit llyfrau darllen- ymestyn darpariaeth cyfresi cyfoes i blant Adran Iau- e.e Prosiect X.<br><br>Ail strwythuro lleoliad llyfrgell dosbarthiadau i fod yn ganolog ac yn hygyrch i bawb<br><br>Ffocws Llesiant- Sicrhau 'Llyfrgell i Bawb'- llyfrau hygyrch i bob oed lefel / dim gwahaniaethu. | Cyngor Ysgol a'r Criw Siarter Iaith i arwain- llunio llythyrau/ceisadau arian GRHA. | Cefnogaeth tim Cefnogi'r Gymraeg, Sir Ddinbych<br><br>Dadansoddi canlyniadau | Nawdd GRHA- £1200 | Tymor yr Hydref 2025 |
| Ail strwythuro sesiynau darllen yn dosbarth- sesiynau unigol bob dydd. Ystyriaeth i nofel dosbarth- er mwyn ysgogi diddordeb/mwynhad- sgiliau gwrando a diddordeb | Athrawon dosbarthiadau | Canllawiau cenedlaethol – Ymateb i arweiniad ar ddarllen ESTYN | Arian adnoddau- £500 | Tymor yr Hydref 2025 |
| Cynnal holiadur dysgwyr ar ddarllen- gwerthuso arlwy newydd o lyfrau/adnoddau- a camau ymlaen. | Staff Uned dan 12 | Llais y dysgwyr- plant a staff yn dadansoddi'r canlyniadau | Yn ddibynnol ar canfyddiadau | Ionawr 206 |
| Trefnu Hyfforddiant Darllen i staff CA2 – 'Camau Ymlaen' – yn dilyn cwblhau rhaglen ffoneg Tric a Chlic | Elin Parry / Ffion Hughes | Datblygu medrau darllen dysgwyr 'mewn byd sy'n llawn o eiriau (CYDAG)- Wrecsam | Cyflenwol x 2 dydd<br><br>(£180 x 2) | Mawrth 2026 |
| Dadansoddi data darllen CA2 yn fanwl (cynnydd, grwpiau,).- Profion/Asesiadau Darllen Cenedlaethol- adnabod grwpiau targed- defnyddio cymhorthydd i dargedu grwpiau | Uwch dim / ALNCO | Defnyddio canllawiau HWB wrth dehongli asesiadau personol. | Grant PDG-<br><br>(Gweler cynllun) | Ionawr 2026 |

# Blaenoriaethau'r Ysgol 2025-26

## Blaenoriaeth 1 (Parhad)

| **Blaenoriaeth 1:**<br>**Llythrennedd**<br>• **Codi safonau llafar Cymraeg disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen**<br>• **Datblygu sgiliau Darllen Cymraeg disgyblion yn yr Adran Iau** | **Crynodeb a thystiolaeth pam dewis hyn fel blaenoriaeth:**<br>• Sgyrsiau proffesiynol staff a chanlyniadau hunanarfarnu mewnol.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer uchel o blant ddim yn darllen adref yn gyson.<br>• Holiadur plant yn dangos bod nifer o ddisgyblion iau yr ysgol yn siarad Saesneg ar y buarth.<br>• Adborth holiadur staff.<br>• Dadansoddiad Asesiadau / Profion cenedlaethol Darllen 2024/25.<br>• Ffocws cenedlaethol ar ddatblygu sgiliau darllen. |
|---|---|

| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Sgiliau Darllen yn yr Adran Iau** | | | | |
| Adolygu cynnydd darllen bob tymor mewn cyfarfod- defnyddio data asesiadau cenedlaethol fel arf. | Athrawon | Arweiniad Darllen Cenedlaethol | Amser cyfarfodydd | Ionawr 2026+ |
| Casglu tystiolaeth o lyfrau, arsylwadau, llais y dysgwr a llais y rhieni. / Cydweithio efo Ysgol Twm o'r Nant- sefydlu partneriaeth rhwng y ddwy Ysgol I staff CA2 gyfarfod I drafod cynnydd disgyblion mewn darllen | DP/FFh | Rhannu arferion da- cydweithio efo ysgolion | Amser cyflenwol / rhyddhau staff | Gwanwyn 2026 |
| Adolygu a mireinio'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth. | Pennaeth / Uwch dim | Dadansoddi holiaduron dysgwyr- Ymchwilio am rhaglenni darllen / gweithdrefnau sy'n llwyddiannus- datblygiad proffesiynol staff. | Amser / Defnydd amser CPA | Gwanwyn 2026 |
| Adrodd yn rheolaidd i'r corff llywodraethu ar gynnydd a heriau | Pennaeth / Dirprwy | Rhannu canfyddiadau data efo'r isbwyllgor Cwricwlwm | Amser | Gwanwyn 2026 |

# Blaenoriaeth 1 (Parhad)-

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 5 | Uned Dan 7 |
|---|---|
| • Cefnogi athro Meithrin Newydd efo dulliau trochi iaith dysgwyr.<br>• Trefnu i staff fynychu hyfforddiant Tric a Chlic.<br>• Cynnal awdit o ddefnydd adnoddau megis Iaith ar Gan, Sglein arlein, Pie Corbett i ddatblygu sgiliau llafar dysgwyr.<br>• Sicrhau bod staff yn defnyddio Cymraeg naturiol yn gyson, gyda'r staff yn modelu iaith yn barhaus.<br>• Dewis geirfa allweddol a strwythurau iaith i'w modelu a'u hailadrodd pob wythnos/pythefnos. Defnyddio Cynllun Llafar Sir Ddinbych yn rheolaidd.<br>• Ailadrodd geirfa allweddol yn ddyddiol e.e. wrth drafod yn ystod cofrestru. Dewis gair yr wythnos.<br>• Darparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer siarad a gwrando – amser cylch i rannu profiadau, paned a sgwrs.<br>• Dysgu straeon ar eu cof gan ddefnyddio'r dull Pie Corbett.<br>• Defnyddio chwaraeon buarth, gemau geirfa a gemau iaith yn rheolaidd e.e. Beth sydd yn y bag? Mi es i i'r siop i brynu………<br>• Rhoi QRcode i lyfrau stori yn cael eu darllen ar You Tube – clustffonau ac ipads yn y gornel ddarllen.<br>• Sesiynau canu hwiangerddi yn rheolaidd – defnyddio bag rhigymau.<br>• Cymeryd rhan yn y rhaglen Pori Trwy Stori.<br>• Fideos byr ar Seesaw: staff yn cyflwyno ymadroddion syml fel "Bore da, sut wyt ti?"<br>• Canolbwyntio ar ddarllen cynnar trwy lyfrau a sain - darllen straeon yn rheolaidd – annog y plant i ail adrodd, cymeryd rhan, rhagfynegi.<br>• Sesiynau darllen ar y cyd gan ddefnyddio cynllun Tric a Chlic.<br>• Mesur a monitro cynnydd trwy arsylwi iaith lafar, cadw tystiolaeth ar Seesaw,<br>• Ymgysylltu gyda rhieni a hyrwyddo y defnydd o Gymraeg adref - Bag Iaith Teithiol - yn mynd adref bob wythnos gyda phlentyn gwahanol. Y bag yn cynnwys anifail meddal, llyfr stori a llyfr nodiadau. Teulu'n cael cyfle i sgwrsio ac ysgrifennu/rhannu straeon yn Gymraeg. Rhannu linc pwrpasol efo teuluoedd droes Seesaw. | • Trochi'r plant yn yr iaith a magu balchder.<br>• Gwobrwyo defnydd o'r iaith – pwyntiau Dojo a Siaradwr Cymraeg yr wythnos.<br>• Sglein arlein – defnydd dyddiol er mwyn gloywi iaith drwy gan/stori/idiomau.<br>• Iaith ar gan – defnydd dyddiol ar adegau amrywiol i ddatblygu iaith.<br>• Darparu grwpiau ymyrraeth i blant di-hyder yn yr iaith, e.e. grwp naratif.<br>• Cynnig cefnogaeth datblygu iaith gan Sioned Parri.<br>• Trefnu partneriaid parable wythnosolar fore Llun i drafod newyddion y penwythnos.<br>• Cyfleoedd dyddiol i drafod teimladau/tywydd a phynciau trafod yn ystod y Cyfnod Cylch.<br>• Defnydd dyddiol o Makaton.<br>• Defnyddio Pie Corbett i ddysgu ac ail-adrodd straeon.<br>• Cynnal pleidlais 'Stori yr wythnos'.<br>• Cyfle i drafod 'Cwestiwn yr wythnos' wrth y bwrdd pecyn.<br>• Darparu heriau syrcas iaith a darllen ar gyfer datblygu hyder iaith, sillafu a llawysgrifen.<br>• Cynnal gweithgareddau Tric a Chlic wythnosol.<br>• Cynnal 'darllen dosbarth' ar y cyd er mwy trafod cystrawen a goslef llais.<br>• Cynllunio gwaith cartref sillafu wythnosol.<br>• Sicrhau chwarae gemau iaith/buarth/dyfalair er mwyn dysgu'r iaith yn hwyliog. |

# Blaenoriaeth 1 (Parhad)

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 9 | Uned Dan 11 |
|---|---|
| • Cyflwyno Syrcas Iaith ddyddiol. Gweithgareddau yn cylchdroi bob dydd – darllen, sillafu, llawysgrifen, gemau iaith.<br>• Llunio amserlen darllen unigol dyddiol.<br>• Sicrhau cofnod darllen i bob plentyn.<br>• Atgoffa rhieni o bwysigrwydd darllen gyda'u plant a gosod darllen fel tasg gwaith cartref penodol.<br>• Cyflwyno caneuon Iaith ar Gan a Can Sing yn ddyddiol gyda geiriau ar y sgrin er mwyn atgyfnerthu sgiliau darllen.<br>• Cynnwys rhaglen gloywi iaith Sglein Arlein yn yr amserlen dyddiol.<br>• Cyflwyno ardaloedd her yn y dosbarthiadau er mwyn annog datblygiad iaith lafar cymdeithasol y plant a datblygu cyfleoedd ehangach i ddefnyddio sgiliau darllen.<br>• Trefnu gwirfoddolwyr i ddod i ddarllen efo'r plant yn wythnosol.<br>• Cynllunio gweithgareddau darllen fel rhan o'r gwersi Cymraeg wythnosol yn ogystal a'r sesiynau Syrcas Iaith.<br>• Buddsoddi mewn cyfres ddarllen ffoneg Cymraeg i CA2 er mwyn gallu darparu deunydd darllen addas i bob plentyn.<br>• Gwreiddio rhaglen Read Write Inc yn ffurfiol i gyflwyno ffoneg Saesneg ym Mlwyddyn 3 a 4.<br>• Grwpio'r plant yn ol gallu ar gyfer gwersi Saesneg er mwyn targedu datblygiad sgiliau ffoneg – 3 grwp.<br>• Rhoi cyfle i bawb gymryd rhan yn y Cwis Llyfrau eleni – cyfle i hybu darllen er mwynhad ymysg y plant<br>• Defnyddio Pie Corbett i ddysgu ac ail-adrodd straeon.<br>• Manteisio ar gyfloedd dyddiol i fodelu darllen i'r plant a chyd-ddarllen fel dosbarth er mwyn datblygu mynegiant a dealltwriaeth. | • Sicrhau cofnod darllen i bob plentyn.<br>• Atgoffa rhieni o bwysigrwydd darllen gyda'u plant.<br>• Cynnwys rhaglen Sglein arlein drwy ein pecyn sillafu wythnosol, amserlennu gweithgareddau gloywi iaith i'r dosbarth, atgyfnerthu'r gloywi iaith yma yn y gwaith cartref.<br>• Trefnu gwirfoddolwyr i ddarllen gyda'r plant yn wythnosol.<br>• Cynllunio gweithgareddau darllen fel rhan o'r gwersi Cymraeg.<br>• Darllen nofel ddosbarth Gymraeg addas yn rheolaidd<br>• Amserlennu sesiynau darllen unigol dyddiol.<br>• Prynu nifer o lyfrau Cymraeg newydd a chyffrous i'r dosbarth er mwyn ennyn diddordeb.<br>• Gwahodd awduron i'r ysgol ar ol darllen ei llyfr (Mari Lovegreen)<br>• Cyflawni pecyn sillafu gramadeg a llawysgrifen yn ddyddiol.<br>• Sicrhau bod y Cwis Llyfrau yn fwy democrataidd y flwyddyn hon, rhoi cyfle I bawb ddarllen y llyfr.<br>• Darparu prynhawn llythrennedd yn bythefnosol fel rhan o'r Gwaith thema.<br>• Creu llyfrgell trefnus a deniadol sy'n ennyn diddordeb y plant.<br>• Datblygu system adolygiad llyfr i'r plant gyflawni ar ôl darllen llyfrau gwahanol. |

# Blaenoriaeth 2

| **Blaenoriaeth 2:**<br><br>**Lles- Cefnogi llesiant disgyblion drwy'r ysgol- cefnogi darpariaeth plant ADY, codi lefelau presenoldeb disgyblion a chryfhau dycnwch disgyblion.** | **Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth :**<br>• Blaenoriaeth genedlaethol<br>• Ymateb holiaduron rhieni<br>• Ymateb holiaduron staff<br>• Sgyrsiau proffesiynol staff |
|---|---|

| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | ✓ | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
|---|---|---|---|---|
| Codi lefelau Presenoldeb disgyblion- Codi lefel ysgol gyfan o 93% i 95% dros y flwyddyn academaidd. | Pennaeth /<br><br>Uwch Dim / Athrawon | Trafod mewn cyfarfodydd staff/ uwch dim | Cost marchnata- gwobrwyo lefelau presenoldeb unigolion / grwpiau? Pob hanner tymor? | Tachwedd 2025 ymlaen |
| Ysgrifennu at rieni ar gychwyn tymor- atgoffa am bwysigrwydd presenoldeb. | Pennaeth | Dilyn canllawiau / gweithdrefnau Sir Ddinbych | Amser | Medi 2025 |
| Trafod gyda staff- sut mae canmol / gwobrwyo lefelau presenoldeb? Tystysgrifau / siartiau dosbarth? | Athrawon / Uwch Dim | Trafod fel ysgolion Clwstwr Rhuthun- rhannu arferion da | Amser cyfarfodydd staff | Tachwedd 2025 ymlaen |
| Creu taenlen ysgol gyfan- tracio unigolion fesul dosbarth- yna ymateb i lefelau pryder- trafod fel uwch dim a staff gweinyddol. | Glenda Jones – Swyddfa<br><br>Athrawon | Defnydd orau o'r daenlen- rhannu gwybodaeth gyda staff. | Amser gweinyddol | Yn wythnosol ac adolygu bob hanner tymor. |
| ADY- Ymateb i anghenion plant ADY dosbarth derbyn. Creu grwp ymyrraeth penodol i gefnogi llesiant y plant. | Annwen Hughes<br><br>Sioned Roberts / Elinor Rogers | Hyffoddiant sirol / clwstwr<br><br>Proseictau tim Cefnogi Llesiant / Cynhwysiant / Ymddygiad Sir Ddinbych | Clustnodi dyddiau HMS- Talu staff ategol I gael yr hyfforddiant.<br><br>£2000 | Dyddiau HMS 2025-26 |

# Blaenoriaeth 2 (Parhad)

| Camau Gweithredu / Meini prawf | Cyfrifoldeb pwy? | Anghenion Dysgu Proffesiynol | Ffynhonnell Cyllid a Chost | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi HLTA i ymgymryd y rol i gyd-gordio'r ddarpariaeth. Trefnu hyfforddiant, gweithgareddau ac adolygu'r ddarpariaeth.<br>Creu Dosbarth Enfys | Annwen Hughes<br>Ceri Roberts (HLTA) | Cydweithio a thim cynhwysiant ADY Sir Ddinbych<br>Ymweliadau ysgolion i adnabod arferion da e.e Ysgol Borthyn, ST.Asaph VP | Cyflenwol i ymweld- £600<br>Adnoddau ar gyfer creu darpariaeth sy'n yamteb i anghenion y dysgwyr- 'Creu Ystafell ENFYS' - £2000 | Sefydlu yn wreiddiol / cychwynnol yn Medi 2025- ond ei ddatblygu drwy gydol y flwyddyn. |
| Cryfhau dycnwch disgyblion- Gweithio efo Kathryn Nash (Seicolegydd Addysg) a Clare Astbury Jones- Gwasanaeth Ymddygiad | Ffion Hughes<br>Helen Williams | Hyfforddiant staff- oriau gwyll ac yn ystod calendr HMS y flwyddyn | Telir staff ategol am fynychu hyfforddiant diwrnodau HMS<br>£2000 | Ionawr 2026 ymlaen |
| Ail-fodelu'r ystafell lles yn yr ysgol er mwyn creu awyrgylch diogel a chartrefol i ymateb i anghenion emosiynol sydd ar gynnydd. | Ffion Jones<br>Hayley Jones | Adnabod arferion da yn Ysgol Stryd y Rhos | £500 - CRhA | Ionawr 2026 |
| Cynnal cyswllt rheolaidd gyda Lowri Jones, ein gweithwraig cyswllt teuluol ac annog rhieni i fynychu cyrsiau a sesiynau.<br>Trefnu hyfforddiant Solihull yma ar y safle. | Dyfan Phillips<br>Elinor Rogers | Codi ymwybyddiaeth staff o ymyrraethau teuluol y tu allan i'r ysgol | Amser / Marchnata sesiynau cefnogi teuluoedd ar ein tudalen Facebook | Parhaus |
| Sefydlu sesiynau Cylch Ti a Fi ar y safle. Cryfhau ymdeimlad o berthyn a chymuned gyda phlant cyn oed ysgol. Galluogi'r ysgol i ddod i adnabod anghenion yn fuan a gallu blaen-gynllunio.<br>Cydweithio gyda'r Cylch Meithrin lleol i ymchwilio i'r posibiliadau o gael y Cylch ar y safle yn y dyfodol. | Dyfan Phillips<br>Ffion Hughes<br>Kate Griffiths (Cylch) | Ymweld a'r Cylch yn dymhorol<br>Cydweithio gyda'r Mudiad Meithrin | Cydweithio a'r Cylch Meithrin- Ymweliadau gan y pennaeth / dirprwy- athrawes meithrin- dim cost ariannol- amser. | Parhaus |

# Blaenoriaeth 2 (Parhad)

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 5 | Uned Dan 7 |
|---|---|
| • Croeso cynnes gan staff a'r athrawon yn cyfarfod y plant wrth y giat/drws bob bore.<br>• Cyfleoedd i rannu teimladau ben bore – cerrig teimladau a chan Sut wyt ti'n teimlo heddiw?<br>• Creu amgylchedd cynnes a diogel gan sicrhau trefn ddyddiol glir sy'n rhoi teimlad o ddiogelwch i'r plant.<br>• Cynnal sesiwn llafar/amser cylch i drafod a mynegi profiadau/emosiynau.<br>• Adnabod ac ymateb i bryderon yn syth.<br>• Adnabod ac ymateb i anghenion ADY yn gynnar trwy arsylwi datblygiad.<br>• Cyfathrebu cyson gyda rhieni.<br>• Creu ardal dawel/cwt cysur yn yr uned ar gyfer ymdawelu.<br>• Creu amserlenni gweledol i blant ag ADY.<br>• Defnyddio adnoddau fel Yr Anghefil Lliwgar a Lola.<br>• Cynnig cyfleoedd i fynegi emosiynau trwy gelf, cerddoriaeth a symud.<br>• Adnabod ac ymateb i anghenion ADY yn gynnar trwy arsylwi datblygiad plant yn ofalus – datblygiad lleferydd, corfforol ac emosiynol.<br>• Cynllunio gweithgareddau wedi'u haddasu ar gyfer anghenion unigol.<br>• Cefnogi presenoldeb a lles teuluol trwy roi croeso cynnes i rieni a gofalwyr, a bod yn bresennol ar y giat yn foreol.<br>• Cysylltu'n gynnar os yw plentyn yn absennol.<br>• Cydweithio'n agos gyda'r Swyddog Cyswllt Teuluol.<br>• Cydweithio fel tîm i drafod anghenion disgyblion mewn cyfarfodydd Uned byr wythnosol.<br>• Dysgu datrys problemau bach trwy chwarae a thrafod beth allwn ni ei wneud pan fydd problemau'n codi.<br>• Canmol ymdrech yn hytrach na chanlyniad.<br>• Rhannu straeon ac enghreifftiau o gymeriadau sy'n dangos dycnwch, e.e. Elfed yr Eliffant. | • Cynnal sesiwn lles wythnosol.<br>• Dilyn cynllun ACRh Sir Ddinbych.<br>• Trafod ein teimladau yn foreol drwy gynllun Sglein arlein.<br>• Sicrhau cornel/ardal lles yn y dosbarthiadau.<br>• Cynnig hafan i'r plant sydd angen yn y stafell Enfys / stafell lles.<br>• Sicrhau swyddi a chyfrifoldeb i holl blant y dosbarth.<br>• Defnyddio llais y plenty ar gyfer cynllunio ardaloedd, heriau a themau.<br>• Dewis partneriaid trafod Newydd ar fore Llun.<br>• Sesiynau dyddiol i  bob un plentyn yn y dosbarth tu allan.<br>• Cerdded 'y filltir' yn ddyddiol er mwyn cadw'n heini.<br>• Gwersi ac heriau wedi eu gwahaniaethu er mwyn i bob plentyn deimlo'n hyderus.<br>• Gwobrwyo'r plant yn ddyddiol gyda choron aur ac yn wythnosol gyda thystysgrifau 4 diben a'r Seren Aur yn wythnosol.<br>• Cynnal gwasanaeth sy'n gyfle i drafod pynciau llosg / straeon beiblaidd a moesol a Cyfnod Cylch i drafod cwestiwn yr wythnos.<br>• Sicrhau amserlen ymyrraeth gref i gefnogi ein holl blant. |

# Blaenoriaeth 2 (Parhad)

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 9 | Uned Dan 11 |
|---|---|
| ● Rhannu amserlen gweledol dyddiol efo'r plant bob bore fel bod pawb yn ymwybodol o drefn y dydd ac o unrhyw newidiadau i'r drefn arferol.<br>● Amserlennu sesiwn lles bob wythnos ar brynhawn dydd Iau.<br>● Plant i greu llyfrau lles yn ystod y sesiynau lles i'w rhannu efo plant iau yr ysgol.<br>● Dilyn cynllun ACRh yn wythnosol.<br>● Trafod teimladau yn y sesiwn bore - Sglein ar lein.<br>● Creu cornel lles yn y dosbarthiadau - cyfle i gael munud o dawelwch, trafod teimladau, ymlacio.<br>● Amserlennu swyddi dosbarth i'r plant gael cyfle i gymryd cyfrifoldeb a datblygu annibyniaeth.<br>● Sicrhau bod llais y plentyn yn gryf yn yr uned - plant yn awgrymu heriau newydd ar gyfer yr ardaloedd, pleidleisio dros themau, awgrymu syniadau ar gyfer y themau.<br>● Sicrhau bod y system Partneriaid Trafod wedi ei wreiddio sy'n rhoi cyfle i'r plant fagu hyder yn sgwrsio, cydweithio a thrafod efo plant gwahanol.<br>● Cynnal cyflwyniadau byr tu allan yn yr awyr agored ar ol amser chwarae ac amser cinio i helpu'r plant drosglwyddo yn ol i'r gwersi ar ol toriad.<br>● Dilyn strwythur newydd wrth gyflawni tasgau yn y dosbarth - tasg athro a thasg annibynnol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r plant gael mewnbwn dyddiol gan yr athrawon a chyfle i fagu hyder wrth gymhwyso sgiliau yn annibynnol.<br>● Amserlen ymyrraethau wedi eu drefnu efo Mrs B a Miss Enfys.<br>● Gwersi wedi eu gwahaniaethu er mwyn i bob plentyn allu cyrraedd eu llawn botensial.<br>● Sefydlu gweithgor Diogelwch y Ffordd gydag ysgolion lleol. | • Dangos amserlen gweledol dyddiol i'r  plant bob bore.<br>• Darparu pnawn lles wythnosol.<br>• Darparu elfennau o wersi yn yr awyr agored i gyflawni gemau / darnau o'r diwrnod.<br>• Trefnu swyddi dosbarth, plant yn cymryd perchnogaeth o daclusrwydd, cyflwyniad ac adnoddau'r dosbarth.<br>• Cadw cysylltiad agos gyda rhieni.<br>• Paratoi adnoddau  hwahaniaethu cyson ar draws ein gwersi iaith a mathemateg.<br>• Darparu grwpiau maths ychwanegol gyda gwirfoddolwr i wella sgiliau rhifedd, sy'n datblygu gwytnwch dysgwyr. .<br>• Pennu partneriaid trafod newydd gwahanol bob wythnos er mwyn rhoi cyfle i blant ddysgu sgiliau cymdeitharol amrywiol.<br>• Defnyddio llais y plentyn i gynllunio themau a gweithgareddau amrywiol..<br>• Darparu tasg athro a thasg annibynnol - yn rhoi cyfle i'r plant gael mewnbwn dyddiol gan yr athrawon a chyfle i fagu hyder wrth gymhwyso sgiliau yn annibynnol.<br>• Sefydlu gweithgor Gwrthfwlio efo ysgolion lleol a'r uwchradd. |

# Blaenoriaeth 3

| **Blaenoriaeth 3:**<br><br>**Parhau gyda chodi safonau rhifedd plant drwy'r ysgol- Canolbwyntio ar gwella safonau Mathemateg Pen, Datrys Problemau ac Ymrhesymu disgyblion.** | Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth<br>• Adborth holiaduron staff.<br>• Dadansoddiad Asesiadau / Profion cenedlaethol Gweithdrefnol a Rhesymu 2024/25.<br>• Sgyrsiau broffesiynol staff a chanlyniadau hunanarfarnu mewnol.<br>• Dim cynnydd digonol llynedd, ac angen mwy o amser i weithredu a gweld effaith. |
|---|---|

| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Prif gyfrifoldeb mewnol:** | **Cyfrifoldeb ehangach:**<br><br>**Sut allech cymuned ehangach/cymorth ysgol i ysgol gefnogi'r flaenoriaeth** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
| Adolygu Cynlluniau Gwaith Canolig a Hir dymor Mathemateg | Uwch Dim | Cyfarfodydd staff / cofnodion o'r hyn a drafodwyd | Amser- arian ar gyfer targedu meysydd i ddatblygu | Tymor yr Hydref 2025 |
| Craffu ar waith / holiaduron dysgwyr- agweddau tuag at Mathemateg. | Holl Athrawon | Diweddaru cynllun hunan arfarnu / werthuso Ysgol gyfan | Cyflenwol i ryddhau staff i gynnal teithiau dysgu bob tymor | Tymor yr Hydref 2025 |
| Cydweithio ysgol i ysgol gyda Ysgolion Twm o'r Nant / Ysgol Dewi Sant. | Pennaeth | Cysylltu ag ymghynorwyr rhifedd traws sirol / cydweithio efo ysgolion uwchradd / Adrannau Mathemateg | Cyflenwol<br><br>Arian I ryddhau staff I fynd ar gyrisua rhif CYDAG | Tachwedd / Ionawr 2026 |

# Blaenoriaeth 3- Parhad

| **Blaenoriaeth 3:**<br><br>**Parhau gyda chodi safonau rhifedd plant drwy'r ysgol- Canolbwyntio ar gwella safonau Mathemateg Pen, Datrys Problemau ac Ymrhesymu disgyblion.** | **Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth**<br><br>• **Holiaduron rhieni**<br><br>• **Sgyrsiau broffesiynol staff** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
| Athrawon i gyd-graffu / cyfarfod i rannu arferion da efo Mathemateg | Holl Athrawon | Sefydu templedi craffu ac adrodd yn ol | Amser rheolaethol y dirprwy bennaeth | Medi 2025 |
| Ffocws monitro / mesur ansawdd ar Fathemateg- cynnwys llywodraethwyr / swyddog gwella ysgol yn y broses. | Uwch dim | Trefnu amserlen flwyddyn o ran hunan arfarnu / gwerthuso- rhannu efo staff a llywodraethwyr- rhoi ar waith | Amser rheolaethol y dirrpwy bennaeth<br><br>Cyfarfodydd proffesiynol py pennaeth gyda phenaethiaid ysgolion tebyg- e.e Twm o'r Nant, Dewi Sant, y Llys | Tymor yr Hydref 2025 |
| Trefnu gweithgor Rhifedd Ysgolion Rhuthun- cydweithio ar lyfryn clwstwr 'Cyfrifo' | Pennaeth / Uwch dim<br><br>Elin Owen | Pwynt agenda cyfarfodydd Penaethiaid Clwstwr | Amser<br><br>Cost i ryddhau cydlynwyr rhif / athrawon Blwyddyn 5/6 I gyfarfod efo staff eraill. | Ionawr 2025 |
| Awdit adnoddau Mathemateg- Cyngor Ysgol yn hel arian / buddsoddi mewn offer mathemateg ar gyfer yr Adran Iau | Elin Parry ac aelodau'r Cyngor Ysgol | Cynnal awdit offer presennol- cais am arian gan GRHA | Cymdeithas Rhieni ac Athrawon - £500 | Hydref 2025 |

# Blaenoriaeth 3 (Parhad)

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 5 | Uned Dan 7 |
|---|---|
| • Modelu iaith Fathemategol gyfoethog a chymeryd bob cyfle yn ystod y dydd – gwers ymarfer corff, cyfri faint sy'n bresennol heddiw, beth yw'r dyddiad a beth yw 1 yn fwy/1 yn llai, cyfri wrth wneud rhes ginio ayyb.<br>• Canu rhigymau rhif yn rheolaidd.<br>• Cynnwys rhifedd drwy'r dydd mewn gweithgareddau chwarae a gwneud mwy o ddefnydd o'r ardal tu allan i ymgorffori rhifedd – chwarae gemau rhif, cyfri camau, creu patrymau ayyb.<br>• Cynllunio heriau rhifedd.<br>• Datblygu sgiliau meddwl sydyn – "10 eiliad i feddwl" – heriau llafar gyda dim ond 10 eiliad i ateb.<br>• Cynnal awdit adnoddau Mathemateg yn yr uned.<br>• Buddsoddi mewn offer Mathemateg newydd ar gyfer yr uned.<br>• Rhoi lincs gwefannau rhifedd ar Seesaw er mwyn annog rhieni i gefnogi adref. | • Modelu iaith fathemategol gyfoethog a chymeryd bob cyfle yn ystod y dydd i ymestyn geirfa Fathemategol.<br>• Canu rhigymau rhif dyddiol yn ystod sesiynnau boreuol – Dyddiau'r Wythnos, Misoedd y flwyddyn, trefnolion,<br>• Cynnwys rhifedd trwy'r dydd mewn gweithgareddau thematig ac yn heriau ardaloedd y dosbarth.<br>• Cyflwyno Syrcas Rhif dyddiol sy'n cynnwys gweithgareddau rhif amrywiol.<br>• Talu am ffrwyth amser pecyn yn y Cwt Pecyn.<br>• Sesiwn Mathemateg Pen ddyddiol ar ddechrau sesiwn rhif. Defnyddio gwefan Hit the Button er mwyn datblygu sgiliau Mathemateg Pen<br>• Rhannu'r plant yn dri grwp ar gyfer gweri Rhif er mwyn cefnogi, targedu a herio pob plentyn.<br>• Y plant yn cofnodi gweithgareddau rhif ymarferol yn annibynnol ar eu cyfrif Seesaw.<br>• Gosod Gwaith Cartref rhif bob pythefnos<br>• Blwyddyn 2 yn cael sesiwn Mental Maths dyddiol.<br>• Chwarae gemau rhif. |

# Blaenoriaeth 3 (Parhad)

# Mewnbwn Unedau

| Uned Dan 9 | Uned Dan 11 |
|---|---|
| • Cyflwyno Syrcas Rhif ddyddiol yn yr UD9 yn cynnwys gweithgareddau rhifedd amrywiol.<br>• Cylchdroi grwpiau Mathemateg Pen er mwyn cefnogi, targedu a herio bob plentyn.<br>• Targedu bondiau rhif drwy greu cynllun newydd ar gyfer defnyddio rhaglenni Hit the Button a Daily 10 yn wythnosol gyda chamau wedi eu gwahaniaethu.<br>• Ymarfer tablau dyddiol yn rhan o'r Syrcas Rhif.<br>• Rhannu'r plant yn ddau grwp ar gyfer gwersi Mathemateg er mwyn cefnogi, targedu a herio bob plentyn a datblygu annibynniaeth – tasg athro a thasg annibynnol.<br>• Defnyddio Seesaw yn y gwersi Mathemateg ac annog y plant i recordio ac egluro'r hyn maent wedi ei wneud er mwyn ennyn sgiliau meddwl mathemategol ac egluro.<br>• Gosod gwaith Maths Pen gwahaniaethol fel gwaith cartref wythnosol.<br>• Darparu gwaith rhesymu estynedig i'r plant sy'n llwyddo gyda'r llyfrau Mathemateg Pen.<br>• Defnyddio gwefan Maths Bot i gyflwyno posau a heriau er mwyn datblygu sgiliau rhesymu.<br>• Creu ardal Miri Mathemateg yn y dosbarthiadau.<br>• Sicrhau ymarferion wythnosol o TTRockstars a gweithgareddau Mathemateg arlein<br>• Cyflwyno system Cyfrifo Cyflym ym mhob dosbarth er mwyn dysgu ffeithiau rhif.<br>• Cyflwyno Rhif y Dydd a Problem yr Wythnos yn yr ardal Miri Mathemateg er mwyn i'r plant ymarfer yn annibynnol.<br>• Ychwanegu problemau Mathemategol i amserlen y dydd – cyfle i'r plant ddatrys problem yn annibynnol wrth gofrestru. | • Targedu bondiau rhif drwy greu cynllun newydd ar gyfer defnyddio rhaglenni Hit the Button a Daily 10 yn wythnosol gyda chamau wedi eu gwahaniaethu.<br>• Ymarfer tablau fel dosbarth yn defnyddio Daily 10, Bingo dosbarth a TT Rock.<br>• Rhannu'r plant yn ddau grwp ar gyfer gwersi Mathemateg er mwyn cefnogi, targedu a herio bob plentyn a datblygu annibynniaeth – tasg athro a thasg annibynnol.<br>• Cyflwyno gwersi rhesymu a datrys problemau wythnosol i ddatblygu sgiliau rhesymu.<br>• Defnyddio adnoddau Gareth Metcalfe i gynorthwyo'r addysgu rhesymu.<br>• Cynllunio a darparu adnoddau gwahaniaethol sy'n addas i'r dysgwyr gwahanol.<br>• Gosod heriau ychwanegol yn rheolaidd i'r plant MAT.<br>• Defnyddio Seesaw yn y gwersi Mathemateg fel darpariaeth ar gyfer tasgau annibynnol.<br>• Gosod gwaith Maths Pen gwahaniaethol fel gwaith cartref wythnosol.<br>• Plant i farcio a gwirio eu gwaith mathemateg pen yn ddyddiol. Cynnal sesiynau gwirio mathemateg pen rheolaidd i wirio cam-ddealltwriaeth.<br>• Cynllunio pnawn rhifedd pythefnosol i gymhwyso sgiliau mathemateg yn drawscwricwlaidd.<br>• Creu a defnyddio wal fathemateg ym mhob dosbarth fel bod y plant yn gallu gwirio yn annibynnol.<br>• Defnyddio trinolion a chymorth fel matiau tablau, sgwar cant, multilinc, siapiau 3D i gynorthwyo'r addysgu. |

# Blaenoriaeth 4

| **Blaenoriaeth 4:**<br>**Arweinyddiaeth – Mireinio Systemau Hunan arfarnu**<br>**Ysgol gyfan** | **Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth**<br>• Wedi cael blwyddyn o adolygu systemau hunan-arfarnu Ysgol gyfan- amlygwyd systemau i'w datblygu | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | ✓ | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | ✓ |

| **Prif gyfrifoldeb mewnol:** | **Cyfrifoldeb ehangach:**<br>**Sut allech cymuned ehangach/cymorth ysgol i ysgol gefnogi'r flaenoriaeth** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
| Yn dilyn cyfnod o arsylwi systemau a gweithdrefnau ysgol (24-25), llunio rhaglen hunanwerthuso newydd ar gyfer yr ysgol sy'n adlewyrchu ein sefyllfa bresennol.<br>Cynnwys holl rhanddeiliaid yn y prosesau monitro. | Dyfan Phillips<br>Ffion Hughes | Rhwydwaith dirprwyon – FfH. | Amser rhyddhau dirprwy - £200 x 4 | Medi 2025 |
| Apwyntio dwy HLTA i ymgyrmyd a chyfrifoldebau cyflenwi dosbarthiadau ysgol mewn achosion absenoldeb salwch athrawon- adolygu effeithiolrwydd o ran costau / arbenigedd dosbarth/ ysgol. | Pennaeth<br>Uwch Dim<br>Annwen Hughes (ALNCO) | Cwrs Uwch gymhorthydd | Ysgol yn talu i ryddhau Emma Turner-Evans- 4 diwrnod.<br>Ymchwilio I hyfforddiant staff ategol- Cydweithio a Wendy Williams (Gwynedd) | Ionawr 2026 ymlaen |
| Ail sefydlu gwefannau cymdeithasol yr ysgol- tudalen Facebook ac Instagram newydd- gosod dyddiadau gweithgareddau ysgol am y flwyddyn . | Elen Tudor | Cydymffurfio efo deddfwriaeth diogelu data | Amser i rhyddhau staff | Medi 2025 ac yna adolygu yn barhaus |

# Blaenoriaeth 4 (Parhad)

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 4:**<br>**Arweinyddiaeth – Mireinio Systemau Hunan arfarnu Ysgol gyfan** | | | | **Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth**<br>• Wedi cael blwyddyn o adolygu systemau hunan-arfarnu Ysgol gyfan- amlygwyd systemau i'w datblygu | | | | | |
| **Safonau** | ✓ | **Lles ac agweddau at ddysgu** | ✓ | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | ✓ | **Gofal, Cymorth ac arweiniad** | ✓ | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | ✓ |

| **Prif gyfrifoldeb mewnol:** | **Cyfrifoldeb ehangach:**<br>**Sut allech cymuned ehangach/cymorth ysgol i ysgol gefnogi'r flaenoriaeth** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
| Holiaduron – Cywain barn holl rhanddeiliaid yr Ysgol am yr hyn sy'n gryfder / maes i ddatblygu yn yr Ysgol- cwmpasu, cwricwlwm, safonau, lles, diogelwch, ymddygiad, adnoddau, addysgu a dysgu. Gwaelodlin clir o farn ystod eang o rhanddeiliaid. | Pennaeth<br>Dirprwy | Canllawiau ESTYN? | Amser | Tymor yr Hydref |
| Ad drefnu strwythur Staffio- Datblygu rol a defnydd o uwch gymhorthyddion (x2) i gyflawni dyletswyddau CPA Adran Iau (ystyried costau gynyddol asiantaethau).<br>Datblygu rol Uned dan 5- Mared Owen fel athrawes meithrin newydd.<br>Monitro'r Addysgu a Dysgu- hyn er mwyn cyfoethogi datblygiad proffesiynol staff. | Pennaeth<br>Dirprwy Bennaeth<br>Uwch Dim<br>Is bwyllgor Staffio | Cefnogi Uwch gymhorthyddion wrth iddynt gymryd rol CPA dosbarthiadau Uned dan 9- manteisio cryfderau e.e prosiectau creadigol | Bwriad yw lleihau costau gwariant sylwweddol asiantaethau ariannol drwy gyflogi CALU. | Erbyn Medi 2025. |
| Monitro- Creu amserlen monitro cryf sydd yn edrych ar flaenoriaethau CDY 2025-26<br>Asesu a Tracio- Sefydlu offeryn tracio cynnydd disgyblion- hyfforddi staff. Cydweithio efo tim Cefnogi'r Gymraeg Sir Ddinbych i sefydlu offeryn tracio llafar. Hyn er mwyn adnabod mannau i'w datblygu. | Pennaeth a'r Dirprwy / Uwch dim<br>Ffion Hughes- Cydlynydd Llythrennedd | Cydweithio ag ysgolion clwstwr i greu dempled/model o gynllun AHA sy'n ymateb i'r angen ac yn glir i bawb. | Fel rhan o brosesau HA – bydd costau cyflenwol i staff i fonitro / arsylwi / mynychu cyrisau ac ati.<br>£3000 | Yn weithredol erbyn Medi 2025 ymlaen. Cael ei ddiweddaru bob hanner tymor. |

# Blaenoriaeth 4- Parhad

| **Blaenoriaeth 4:**<br>**Arweinyddiaeth – Mireinio Systemau Hunan Arfarnu Ysgol Gyfan-**<br>**Gan gynnwys- Adolygu cyfrifoldebau staff a chysoni arferion da Unedau.**<br>**Ymateb a heriau ariannol cyllideb yr ysgol a chefnogi llesiant staff** | **Crynodeb a thystiolaeth pan dewis hyn fel blaenoriaeth** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu / Meini prawf** | **Cyfrifoldeb pwy?** | **Anghenion Dysgu Proffesiynol** | **Ffynhonnell Cyllid a Chost** | **Pryd?** |
| Mireinio a Datblygu ymhellach Systemau Hunan Arfarnu Ysgol Gyfan- Amserlen monitro clir | Pennaeth<br>Uwch dim<br>ALNCO | Diweddariad i staff ar ofynion Proffesiynol athrawon | Amser | Tymor yr Haf 2026 i baratoi at Medi 2026 |
| Mesur effeithiolrwydd ail strwythuro staffio- adroddiadau gan Unedau- cryfderau a mesydd i ddatblygu | Uwch dim<br>Is bwyllgor Cwricwlaidd | Holiaduron staff ac unedau | Amser | Fesul tymor ac yn unol a chalendr Hunan-Werthuso'r ysgol. |
| Dinasyddiaeth Byd eang- gwneud cysylltiadau rhyngwladol drwy prosiect TAITH- Rhoi cyfleoedd i staff rhwydweithio a staff ysgolion eraill. Ystyried rhoi cais ar gyfer Mawrth 2026 | Elin Owen / Elin Parry | Elin Parry ac Elin Owen i fynychu hyfforddiant ar lein TAITH- | Amser i ryddhau staff i gwblhau cais am nawdd i sefydlu prosiect rhynglwadol- gyda'r ffocws ar flaenoriaeth 1 a 2- CDY 2025-26 | Mawrth 2026 |
| Cydweithio a swyddogion Cyllid y Clwstwr i ymateb i sefyllfa'r Ysgol fel Ysgol SIFD- | Pennaeth<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr | Cyfarfodydd cyson efo swyddog Cyllid y Clwstwr | Ceisio arbedion- staffio, lleihau costau asiantaethau, defnyddio CALU i arbed costio, lleihau gwariant lwfans y pen.<br>Grantiau Mentrau Iaith Cymru / Grant Celfyddydau Cymru | Yn dymhorol.<br>**Noder- Swyddog Cyllid Clwstwr yn ymddiswyddo Hydref 2025- Apwytio newydd erbyn Rhag 2025. |

# Adolygu Polisiau 2025-26

| Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
|---|---|---|
| Polisi Cwynion | Polisi Disgyblaeth a Gwth fwlio | Cynllun Rhyddid Gwybodaeth |
| Polisi Diogelu / Amddffyn Plant | Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd | Polisi Asesu |
| Polisi ADY | Polisi Hygyrchedd | Polisi E-ddiogelwch |
| Polisi Codi Tal | | Polisi Ymweliadau Addysgol (EVOLVE) |
| Polisi Iechyd a Diogelwch | | |
| Polisi Mynediadau | | |
| Polisi Cwricwlwm<br>Polisi Gofal a Iechyd | | |

# Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras 2025-26

# Ysgol Pen Barras Governing Body Meetings 2025-26

| Cyfarfod: | Dyddiad: | Amser: |
|---|---|---|
| Cyfarfod Blynyddol y Corff Llywodraethol | Nos Fercher- Medi 17eg | 5.30yp |
| Is bwyllgor Cwricwlaidd | Nos Fawrth- Hydref 7fed | 4.30yp |
| Is bwyllgor Cyllid a Staffio / Adeiladau + Iechyd a Diogelwch | Nos Fercher- Hydref 15fed, | 5.30yp |
| Cyfarfod Llawn y Corff | Nos Iau- Tachwedd 13eg | 5.30yp |

# Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras 2025-26

# Ysgol Pen Barras Governing Body Meetings 2025-26

| Cyfarfod: | Dyddiad: | Amser: |
|---|---|---|
| Is bwyllgor Cwricwlaidd | Nos Fawrth, Ionawr 20fed | 4.30yp |
| Is bwyllgor Cyllid a Staffio / Adeiladau + Iechyd a Diogelwch | Nos Fercher, Mawrth 4ydd | 5.30yp |
| Cyfarfod Llawn y Corff | Nos Fawrth, Mawrth 17eg | 5.30yp |
| **Cyfarfodydd Tymor yr Haf i'w cytuno yn y cyfarfod llawn 17/03/26** | | |

# Cynnydd ers yr arolygiad ESTYN diwethaf:

| Arfarniad | Cynnydd Da Iawn | Cynnydd Cryf | Cynnydd Boddhaol | Cynnydd Cyfyngiedig |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad ym mhob ffordd | Mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad gan mwyaf | Mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad mewn llawer o ffyrdd | Nid yw'n bodloni'r argymhelliad |
| Diffiniad | Dim angen sylw pellach ar unrhyw agwedd. Effaith dda iawn ar safonau a / neu ansawdd y ddarpariaeth. | Angen rhoi sylw i fân agweddau yn unig. Effaith gadarnhaol ar safonau a / neu ansawdd y ddarpariaeth. | Angen sylw syweddol o hyd ar ychydig o agweddau pwysig. Effaith gyfyngedig ar safonau a / neu ansawdd y ddarpariaeth. | Pob agwedd neu lawer o agweddau pwysig yn dal i ddisgwyl sylw. Dim effaith ar safonau a / neu ansawdd y ddarpariaeth. |

| | |
|---|---|
| A1: | A1 Sicrhau bod adroddiadau monitro yn arfarnol a'u bod yn nodi'n glir effaith gweithdrefnau ar safonau a lles y ddisgyblion. |

Blwyddyn academaidd 2025-26

# Crynodeb o arfarniad ESTYN 2019

Adroddiad ar Ysgol Pen Barras
Mawrth 2019

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir iddi, a diwylliant sy'n hyrwyddo Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau. Fe gaiff ei gefnogi'n hynod effeithiol gan yr uwch dîm rheoli. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae holl aelodau staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Mae'r ysgol yn gymuned hynod o gyfeillgar a gofalgar. Mae safonau lles ac agwedd tuag at ddysgu bron pob disgybl yn ardderchog. Nodwedd eithriadol o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch mae pob disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Rhagorol |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Rhagorol |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Rhagorol |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Rhagorol |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Rhagorol |

# Blaenoriaethau 3 mlynedd

* Noder- Blaenoriaethau amcanol yw rhain a gall amrywio!

| Blwyddyn | Blaenoriaethau |
|---|---|
| 2026-2027 | • Cyllid- Sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithol o gyllid sy'n cael ei gwtogi. Adolygu costau / strwythurau staffio.<br>• Parhau gyda marchnata ysgol- cydweithio ag awdurdod Sir Ddinbych- cyn oed ysgol – Cylch Meithrin- Ymchwilio os oes posib gael Cylch Meithrin ar y Safle<br>• Adolygu strwythurau Unedau- ymateb i niferoedd disgyblion.<br>• Dysgu yn yr awyr agored<br>• Hybu sgiliau darllen<br>• Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg – datblygu profiadau STEM i ddisgyblion. |
| 2027-2028 | • Blaenoriaethau Cenedlaethol- Llesiant / ADY / Presenoldeb.<br>• Datblygiad safle- adnewyddu meddalwedd TGCH<br>• Cydweithio clwstwr- adolygu strwythur cefnogaeth HR / Busnes, Cytundebau<br>• Y Gymraeg- Parhau i fonitro iaith y buarth / yn enwedig efo mwy mwy o blant o gartrefi di-Gymraeg er mwyn cyfrannu gweledigaeth y Llywodraeth – Miliwn o Siaradwyr 2050.<br>• TGCH- Effeithiolrwydd AI fel arf i gefnogi addysgu a dysgu- cynllunio gwersi / asesu / cynllunio gwersi. |
| 2028- 2029 | • Parhau i ymateb i heriau cyllidol<br>• Cynlluniau yn cyd-fynd a blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru<br>• Cau bwlch tlodi – parhau i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion o bob cefndir.<br>• Parhau i hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg- ymateb i heriau dosbarth a thu hwnt.<br>• ADY- parhau i ymateb i anghenion disgyblion |